**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2011 (Papur 2 Rhan 1)**
**Paratoadau at y Pedwerydd Cynulliad**

**Dyddiad:** 27 Ionawr 2011
**Amser:** 16:00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Awdur a rhif cyswllt:** Dianne Bevan, estyniad 8991

# Paratoadau at y Pedwerydd Cynulliad

***Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.***

## 1.0 Diben a chrynodeb o'r materion

1.1 Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn am y paratoadau at y Pedwerydd Cynulliad.

## 2.0 Argymhellion

2.1 Bod y Comisiwn yn nodi'r cynnydd a wnaed, ac yn rhoi sylwadau ar gynnwys y papur hwn, yn enwedig ar unrhyw faterion sy'n codi o'r canllawiau drafft ynghylch y diddymu a'r amlinelliad o'r cynigion ar gyfer cynefino a datblygu, a bod y Comisiwn yn cytuno ar y trefniadau diwedd blwyddyn arferol ar gyfer cyflwyno hawliadau (Atodiad B).

## 3.0 Trafodaeth

3.1 Mae paratoadau staff y Cynulliad at y Pedwerydd Cynulliad yn cynnwys y prif feysydd a ganlyn:

- cynllunio ar gyfer y cyfnod yn union cyn ac ar ôl yr etholiad (diddymu a chynefino);

- penderfyniadau annibynnol ar gyflogau a lwfansau'r Aelodau (y Bwrdd Taliadau);
- galluogi Aelodau'r Cynulliad i ddatblygu yn eu rolau ac i gynyddu capasiti'r Pedwerydd Cynulliad, a rhoi cymorth iddynt wrth wneud hynny; a
- chyfathrebu ac ymgynghori ar unrhyw newidiadau a chynigion ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

3.2 Gwnaeth y Comisiwn benderfyniadau ar y trefniadau ar gyfer diddymu'r Cynulliad yn ei gyfarfod ym mis Medi. Erbyn hyn, mae canllawiau manwl ynghylch y diddymu wedi cael eu llunio ar gyfer yr Aelodau a'u staff cymorth. Fe'u cyhoeddwyd ar dudalen gartref yr Aelodau cyn y Nadolig. Mae rhestr o ddyddiadau allweddol ar gyfer gweithredu yn cael ei baratoi, er hwylustod yr Aelodau a'r staff.

3.3 Mae'r Bwrdd Taliadau wedi ystyried holl argymhellion yr adroddiad 'Yn Gywir i Gymru', ac wedi gwneud rhai prif benderfyniadau:

- cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad ar gyfer y pedair blynedd nesaf;
- y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau - cynnwys lwfansau swydd-ddeiliaid, egwyddorion cymorth ariannol, llety preswyl a swyddfeydd;
- cymorth i ddiben a chapasiti strategol y Cynulliad;
- cyflogau, recriwtio a chontractau cyflogaeth safonol staff cymorth, a lwfansau i gefnogi eu gwaith; a
- bod y Bwrdd Taliadau yn cyhoeddi ei brif benderfyniadau a'r cynnydd a wnaed ar ei dudalennau ar y we - cliciwch yma <http://www.assemblywales.org/memhome/mem-allow-pay-pensions/members-remunerationboard.htm>.

3.4 Mae tua dwywaith cymaint o Aelodau Cynulliad nag yn y ddau etholiad blaenorol (13) wedi dweud y byddant yn rhoi'r gorau i fod yn Aelod ar ddiwedd y Cynulliad hwn. Mewn un etholaeth, bydd dau Aelod presennol yn ymgeisio, felly ni fydd o leiaf un

ohonynt yn dychwelyd. Yn ogystal â hyn, ni fydd rhai Aelodau yn cael eu hail-ethol. Mae'n debygol, felly, y bydd mwy o drosiant o ran Aelodau na mewn unrhyw etholiad blaenorol. Os bydd canlyniad 'Ie' yn y refferendwm ar 3 Mawrth, bydd angen i'r Cynulliad fod yn barod i arfer ei bwerau o dan y newidiadau i'r setliad datganoli a ddaw yn sgil hynny.

3.5 Bydd angen i Gynulliad o 60 Aelod-y bydd nifer ohonynt yn gwneud y swydd am y tro cyntaf-gael cymorth er mwyn gweithio i'w lawn gapasiti i fodloni'r heriau hyn. Ar y sail hon, rydym wedi rhoi cryn sylw i'r cyfnod cynefino a chynllunio ar gyfer datblygu proffesiynol parhaus, nid yn unig ar gyfer Aelodau newydd, ond ar gyfer y rhai sy'n dychwelyd, a'u staff cymorth. Mae adnoddau wedi'u neilltuo yn y gyllideb ar gyfer 2011-12, ac ym mlaenoriaethau staff, i gefnogi'r gwaith hwn. Bydd gwaith presennol, ac yn y dyfodol, gyda rhanddeiliaid fel Canolfan Llywodraethiant Cymru, arbenigwyr academaidd eraill, y Gymdeithas Hansard, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r gymuned fusnes yn cefnogi'r datblygiad hwn ac yn darparu mewnbwn allanol.

3.6 Mae grwpiau o Aelodau a staff cymorth wedi cyfrannu at y rhaglen arfaethedig ar gyfer cynefino a datblygu proffesiynol parhaus. Rydym hefyd yn ceisio barn y Bwrdd Taliadau. Bydd yn bwysig sicrhau bod datblygu proffesiynol ar gyfer Aelodau a'u staff yn cael ei deilwra a'i gyflwyno mewn modd hygyrch, gan osgoi, er enghraifft, cyfres o ddarlithoedd a seminarau sy'n cymryd llawer o amser, ond drwy ganolbwyntio ar gyfleoedd datblygu sy'n cysylltu'n agos â threfniadau gweithio o ddydd i ddydd. Gellir gweld yr amlinelliad mwyaf diweddar o gynigon ar gyfer y cyfnod cynefino yn Atodiad A.

3.7 Wrth i'r gwaith o gynllunio ar gyfer trosglwyddo i'r Pedwerydd Cynulliad symud yn ei flaen, rydym wedi ymdrechu i roi gwybodaeth i Aelodau Cynulliad presennol a'u staff cymorth, ac i ymgysylltu â hwy. Mae arweinwyr y pleidiau wedi enwebu Aelod o bob plaid i weithredu fel canolbwynt y drafodaeth ac i gysylltu â'u grŵp; mae'r set hwn o Aelodau wedi cyfarfod gyda'i gilydd, a chydag aelodau unigol o staff, ac wedi rhoi atborth ar y cynigion ysgrifenedig. Yn ogystal, mae grŵp arall, sy'n cynnwys staff cymorth, yn cydredeg â'r grŵp o Aelodau. Bu staff y Cynulliad yn

bresennol yng nghyfarfodydd grŵp y pleidiau i drafod materion sydd o ddiddordeb neilltuol i'r Aelodau, ac rydym wedi cynnwys eitemau ar dudalen gartref yr Aelodau ac ym mwletin misol y Prif Weithredwr. Mae'r Bwrdd Taliadau wedi cynnal ystod o drafodaethau yn y meysydd y mae'n gyfrifol amdanynt. Bydd y Comisiwn yn nodi'r terfynau amser arferol ar gyfer cyfrifyddu diwedd blwyddyn, a gofynnir iddo gytuno arnynt. Maent wedi'i hatodi yn atodiad B.

3.8 Mae Rheolau Sefydlog newydd wedi cael eu drafftio ac mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno arnynt. Cânt eu hystyried gan y Cynulliad ym mis Mawrth.

3.9 Mae'r paratoadau at y Pedwerydd Cynulliad wedi bod yn heriol ac, ar adegau, yn ddadleuol, ond mae cynnydd da yn cael ei wneud. Bydd gwaith y tri mis nesaf yn bwysig iawn wrth gyflawni amcanion y rhaglen.

# Cynefino a chroeso ar gyfer Aelodau Cynulliad newydd a rhai sy'n dychwelyd ym mis Mai 2011

Mae rhaglen gynefino a chroeso yn cael ei ddatblygu i gynnig y profiad gorau posibl i Aelodau Cynulliad newydd a'r rhai sy'n dychwelyd.

Caiff y sesiynau eu harwain gan aelodau staff uwch, a byddant yn canolbwyntio ar roi gwybodaeth wedi'i deilwra mewn amrywiaeth o ffurfiau (gan gynnwys sesiynau holi ac ateb gyda chyflwyniadau byr; sesiynau unigol neu sesiynau gyda grwpiau plaid). Cânt eu cynnal ar adegau sy'n gyfleus i'r Aelodau lle bo hynny'n bosibl, a chânt eu trefnu yn ôl blaenoriaeth.

| Teitl y sesiwn | Cynnwys |
|---|---|
| Eich rôl a sut rydym yn eich cefnogi: Croeso gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr | Croeso cyffredinol i'r Cynulliad a chyfle i gwrdd â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr.<br><br>- gosod y cefndir ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad a sut y gall staff Comisiwn y Cynulliad eu cefnogi; a<br>- cyfleoedd annog Aelodau i fynd i'r sesiynau eraill yn y rhaglen gynefino. |
| Cyflwyniad i'r Senedd a busnes y Cynulliad | Bydd y sesiwn ryngweithiol hon, sydd i'w gynnal yn y Senedd, yn galluogi'r Aelodau i gwrdd â'r tîm sy'n gweithio i sicrhau bod busnes y Siambr yn rhedeg yn esmwyth.<br><br>- materion ymarferol ynghylch y Senedd – rôl yr Aelodau, arferion, defnyddio technoleg gwybodaeth yn y Siambr, cyfieithu ar y pryd a chofnod y trafodion;<br>- amlinelliad o'r sesiynau cyntaf y bydd angen i'r Aelodau gymryd rhan ynddynt; a<br>- cyfle i drafod trefn busnes y Cynulliad, sut y gall yr Aelodau gyfrannu i fusnes y Cynulliad, y Rheolau Sefydlog a gweithio mewn sefydliad dwyieithog. |

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad i adnoddau: Lwfansau ac adnoddau | Cwrdd â'r tîm o uwch-swyddogion sy'n gallu helpu a rhoi cyngor ar faterion ymarferol yn ymwneud â lwfansau; recriwtio staff; deall cyfraith cyflogaeth a'r berthynas gyflogaeth; dyletswyddau o ran cydraddoldeb; rheoli timau bach; pensiynau ac iechyd a diogelwch. |
| Ymdrin â'r cyfryngau | Helpu'r Aelodau i ymdrin â'r cyfryngau yn y cyfnod yn union ar ôl yr etholiad |
| Llywodraethu a safonau | Y Cod ymddygiad, egwyddorion Nolan a sut i gofrestru a chofnodi gwybodaeth. Bydd hefyd cyfleoedd i gwrdd â'r Comisiynydd Safonau. |
| Sesiwn ymarferol ryngweithiol ar bwyllgorau | Caiff y sesiwn ymarferol hon ei chynnal yn un o'r ystafelloedd pwyllgor yn y Senedd, a bydd yn cynnwys:<br><br>- materion ymarferol o ran gweithio fel rhan o un o bwyllgorau'r Cynulliad;<br>- y mathau o waith craffu a wneir gan bwyllgorau;<br>- gweithio yn yr ystafelloedd pwyllgor - arferion a materion ymarferol; a<br>- sut y caiff y pwyllgorau eu sefydlu a sut y maent yn gweithio. |
| Meddu ar wybodaeth a gwneud y mwyaf o'r gwasanaethau ymchwil | Sut y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru helpu'r Aelodau i feddu ar wybodaeth ac arbed amser wrth iddynt wneud eu gwaith craffu, deddfu ac yn yr etholaeth. |
| Y broses ddeddfu | Sut mae'r broses ddeddfu'n gweithio; gweithio fel rhan o bwyllgor deddfwriaeth |
| Busnes y Siambr | Ffyrdd y gall yr Aelodau gyfrannu yn y Cyfarfod Llawn a'r gweithdrefnau sydd ar gael i godi materion ar ran etholwyr, gan gynnwys:<br><br>- trefn Busnes y Cynulliad – rôl y Pwyllgor Busnes;<br>- cwestiynau llafar, ysgrifenedig a brys;<br>- cynigion a gwelliannau;<br>- dadleuon a'r ddadl fer;<br>- y datganiad busnes; |

| | |
|---|---|
| | - busnes deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn;<br>- pwyntiau o drefn; a<br>- datganiadau o farn. |
| Gwneud y mwyaf o gofnod y trafodion / cyfieithu ar y pryd a chyfieithu testun ar gyfer gwaith yn yr etholaeth | Cwrdd â'r tîm i gael gwybod am archebu'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a chomisiynu gwaith cyfieithu testun ar gyfer gwaith yn yr etholaeth. |
| Rheoli data a rhyddid gwybodaeth | Mewn perthynas â gwaith yn y Cynulliad a'r etholaeth. |
| Ymwybyddiaeth a hyfforddiant TGCh | Gwneud y mwyaf o'r system TGCh, defnyddio technoleg ac Office 2010. |
| Hyfforddiant a datblygu at gyfer swydd-ddeiliaid | Er enghraifft, cadeiryddion pwyllgorau. |
| Cyflwyniad i ddiogelwch | Cyflwyniad am ddiogelwch personol yn ystod busnes. |

**Nodiadau:**

Caiff yr uchod i gyd eu hategu gan ddeunydd ysgrifenedig

Bydd desg gymorth ar gael ar gyfer yr Aelodau er mwyn cydlynu'r sesiynau cynefino ac i wneud trefniadau ar gyfer unrhyw sesiynau ad-hoc neu unigol a fydd eu hangen.

**Blaenoriaethau:**

Blaenoriaeth uchaf. Dydd Gwener 6 Mai – Dydd Gwener 13 Mai 2011, ar ôl yr etholiad.

Blaenoriaeth uchel. I'w gyflawni o fewn pythefnos ar ôl yr etholiad.

Blaenoriaeth ganolig. I'w gyflawni yn ystod y 2 - 6 wythnos ar ôl yr etholiad.

**Terfynau amser diwedd blwyddyn 2010-11**

Rydym yn gweithio ar hyn o bryd i sicrhau bod cyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2010-11 yn cael eu cwblhau a'u gosod erbyn mis Gorffennaf 2011. Rhaid i'r cyfrifon gynnwys gwybodaeth am eich gwariant a rhaid i ni gael y wybodaeth gennych erbyn dyddiadau penodol, i sicrhau bod y Cyfrifon yn barod mewn pryd. Ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf, mae'r Comisiwn wedi llwyddo i osod ei gyfrifon cyn toriad yr haf. Gwerthfawrogir eich cymorth a'ch cefnogaeth yn y gwaith hwn.

Gellir cael cymorth a chyngor gan John Chick a Thîm Cymorth Busnes yr Aelodau er mwyn eich helpu i reoli eich gwariant o fewn y gyllideb yn ystod wythnosau olaf y flwyddyn. Gellir gweld enghreifftiau, er mwyn eich helpu drwy'r broses, yn y canllawiau ar y diddymu ar dudalennau Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau ar y fewnrwyd (http://gsc/presidingoffic/mbs/Guidance/Guidance.htm).

Ceir crynodeb o ofynion gwybodaeth yn y tabl isod, ynghyd a'r dyddiadau erbyn pryd y mae angen i ni gael y wybodaeth gennych.

| **Dyddiad targed** | **Camau i'w cymryd gan yr Aelodau:** |
|---|---|
| Erbyn 10 Mawrth 2011 | Hysbysu Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau o unrhyw newidiadau i gyflogau / oriau talu Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad (ee goramser neu fonwsau) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-11. |
| Erbyn 31 Mawrth 2011 | Sicrhau bod digon o arian ar gael yn eich lwfansau ar gyfer 2010-11 i dalu unrhyw hawliadau nad ydynt wedi eu cyflwyno eto.. |
| Erbyn 28 Mawrth 2011 | Cyflwyno hawliadau am nwyddau a gwasanaethau a gafwyd cyn diwedd mis Mawrth mewn cysylltiad â'ch lwfansau ar gyfer 2010-11. |

Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch fel Aelodau o ran unrhyw agwedd ar yr arweiniad hwn, cysylltwch â John Chick, Pennaeth Cymorth Busnes yr Aelodau (est. 8581).

11 Ionawr 2011